Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. 463

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Prosiect Tanau Gwresogi, Awyru ac Aerdymheru Dalfa Hwlffordd**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Bwriad y cynllun hwn yw disodli’r systemau a ffabrigau canlynol sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes ac sydd ddim yn cydymffurfio:
Disodli Systemau Gwresogi ac Awyru yn Nalfa Gorsaf Heddlu Hwlffordd. Mae hyn yn cynnwys disodli’r Uned Trin Aer ar do’r ddalfa, pympiau gwres o’r aer i ddisodli dau fwyler nwy (ystafell beiriannau ar lawr isaf y ddalfa), damperi tân a mwg newydd, atal tân, addasiadau i bibellwaith a phaneli rheoli. Ymhellach i hyn, bydd yn cynnwys disodli System Rheoli Egni Adeilad ac integreiddio â’r System Rheoli Adeiladau ganolog drwy’r Rhwydwaith Ardal Eang Hirbell, cyflenwadau trydan newydd, paneli rheoli, a dileu systemau nwy sydd ddim yn cael eu defnyddio rhagor.

**Argymhelliad:**

Argymhellir bod CHTh yn cymeradwyo argymhelliad yr Adran Ystadau i roi’r cytundeb i CBRE (Highland Services) am osod system Rheoli Tanau Gwresogi, Awyru ac Aerdymheru newydd yn Nalfa Hwlffordd am gost o £1,604,478.41.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dvddiad: 16/06/2026**